

# Awtistiaeth: Beth mae'r Cod yn ei olygu i chi?

Rhaid i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y Cod Ymarfer Awtistiaeth.



## Dyma rai o'r prif ofynion wrth ddarparu gwasanaethau awtistiaeth ledled Cymru.

### Asesu a Diagnosis

- Mae pobl awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael asesiad ac asesiad gofalwr er mwyn cael cymorth.
- Mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â safonau amseroedd aros cenedlaethol.
- Pan wneir diagnosis o awtistiaeth, gwneir atgyfeiriad prydlon at gymorth.
- Pan na wneir diagnosis ar ôl asesiad, gwneir atgyfeiriad at archwiliad pellach.
- Mae gwybodaeth am ganlyniadau asesiadau'n cael ei rhannu rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Mae addasiadau rhesymol ar waith er mwyn i bobl awtistig gael gafael ar wasanaethau yn yr un ffordd ag eraill.
- Fel rhan o'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, mae gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol ar gael.
- Mae staff sy'n cynnal asesiadau wedi cael hyfforddiant awtistiaeth priodol.
- Nid yw cymorth yn cael ei wrthod i'r rhai sy'n aros am ddiagnosis.
- Nid yw pobl â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a chyflwr iechyd meddwl yn cael eu heithrio o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant neu Oedolion.

### Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant

- Mae gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd.
- Mae gwasanaethau awtistiaeth yn cael eu darparu gan staff medrus sydd wedi cael hyfforddiant priodol.
- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn rhan o raglenni hyfforddi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol pob aelod o staff iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae darpariaeth hyfforddiant briodol ar gael yn barhaus i staff newydd a staff presennol sy'n newid eu rolau gwaith.
- Mae pobl awtistig a'u teuluoedd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant awtistiaeth.

### Monitro a Chynllunio

- Mae cyflawniadau'n cael eu hadrodd drwy ofynion casglu a monitro data Llywodraeth Cymru, gan gynnwys amseroedd aros.
- Mae hyrwyddwr awtistiaeth yn cael ei benodi ym mhob rhanbarth.
- Cydymffurfir â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i sicrhau bod anghenion pobl awtistig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau ardal.
- Mae pobl awtistig yn rhan o'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau at y dyfodol.